**Adroddiad Hunanarfarnu Addysg Grefyddol**

**Enw'r Ysgol: Ysgol Gymuned Penisarwaun Ionawr 2020**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:

- Mae'r dystiolaeth sydd yn llyfrau disgyblion, ar furiau'r ysgol, canfyddiadau monitro'r dysgu ac addysgu a sgyrsiau gyda disgyblion i gyd yn cadarnhau bod safonau Addysg Grefyddol yn dda ar draws yr ysgol.
- Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen gall llawer o'r disgyblion drafod cwestiynau sylfaenol, rhoi rhesymau syml dros ddigwyddiadau, sydd yn seiliedig ar brofiadau crefyddol ac maent yn dechrau datblygu medrau rhesymeg effeithiol. Ym mlynyddoedd 3 a 4 gall bron pob disgybl gyfrannu yn dda at drafodaethau gan ddechrau mynegi barn yn ystyrlon parthed y cwestiynau crefyddol. Erbyn brig CA2 gall mwyafrif y disgyblion drafod y Cwestiynau mawr yn aeddfed ac ystyrlon, yn ogystal gallent wneud cymhariaethau effeithiol rhwng crefyddau gwahanol e.e Cristnogaeth, Iddewiaeth a Hindwiaeth, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o ddysgeidiaeth ac arferion Crefyddol byd eang.
- Dengys bod rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn Addysg Grefyddol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Nid oes disgyblion SIY wedi mynychu'r ysgol yn ystod y pum mlynedd diwethaf a dengys canlyniadau bod disgyblion PYD (prin iawn ydynt) yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Bydd staff yn cofnodi cynnydd disgyblion yn dymhorol ac yn adrodd ar ddatblygiad yn yr Adroddiad Blynyddol i Rieni.
- <u>Defnyddio'r Medrau yn y Cydfnod Sylfaen</u> : Mae sgiliau gwrando bron pob un o ddisgyblion y CS yn ddatblygu yn dda, ac o ganlyniad mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gallu dwyn i gof stori maent wedi ei chlywed yn ogystal ag egluro y wers sydd y tu ol i'r stori. Gallent drafod ac ail adrodd yr hyn maent wedi ei glywed a bydd hyn yn arwain at gynyddu ei gerifa grefyddol. Gallent drafod hawliau sylfaenol pob plentyn yn effeithiol yn ogystal ag egluro pwysigrwydd cefnogi elusenau fel Achub y Plant, Plant mewn Angen ayyb. Erbyn brig y Cyfnod Sylfaen gall disgyblion gwblhau gwaith ysgrifenedig ffeithiol a chreadigol yn llwyddiannus iawn gan ddangos gafael ar ffurfiau megis llythyr at blentyn a thaflen gwybodaeth am hawliau plentyn.
  Mae'r gwaith llafar sy'n gysylltiedig a'r gwaith Addysg Grefyddol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad llefaredd y disgyblion
  Gall mwyafrif disgyblion ar frig y Cyfnod Sylfaen Gymhwyso eu sgiliau Rhifedd yn effeithiol yn drawsgwricwlaidd.
  <u>Defnyddio'r Medrau yng Nghyfnod Allweddol 2 :</u> Gall disgyblion CA2 wrando am gyfnodau estynedig ar ymwelwyr ac athrawon, gallent ymateb i deimladau a dyheadau eraill ac maent yn barod iawn i helpu eu cyd-ddisgyblion yn ogystal a phlant eraill ar draws y byd.
  Mae medrau darllen mwyafrif y disgbylion yn dda iawn ar draws y Cyfnodau Allweddol. Mae'r mwyafrif yn darllen yn hyderus gyda rhuglder a dealltwriaeth gref o'r hyn y maent yn ei ddarllen. Gallent ddefnyddio'r medrau darllen uwch i ymchwilio llyfrau a'r rhyngrwyd am wybodaeth i atgyfnerthu eu gwaith dosbarth, gwelwyd hyn yn dilyn cyflwyniad gan Swyddog Achub y Plant yng Nghymru yn ddiweddar, bu'r disgyblion yn frwdfrydig i ddysgu mwy am yr elusen ac i fod yn rhan o ddathliadau Canmlwyddiant yr elusen arbennig honno. Bellach, yn dilyn gwaith ymchwil pellach mae gan y disgyblion adnabyddiaeth gref o waith yr elusen ac am bwysigrwydd Hawliau Plentyn y Cenhedloedd Unedig.

Gall mwyafrif y disgyblion drafod bywyd arweinwyr crefyddol a chymharu cyfraniadau unigolion allweddol megis Y fam Teresa, Eglantyne Jebb, Dr Barnado ayyb. Gallent fynegi ei hunain yn aeddfed yn y Gymraeg a'r Saesneg , er engriafft wrth drafod digartrefedd. Gallent drafod crefydd yr Iddewon yn ystyrlon iawn, mae ganddynt wybodaeth gref am arferion ac arteffactau'r Iddew yn ogystal a gwybodaeth am y synagog a llyfrau cysegredig yr Iddew yn ogystal a'u cymharu a'r Beibl Cristnogol. Yn yr un modd gallent drafod cristnogaeth a Hindwiaeth ac ar adegau eu cymharu yn ystyrlon.

Llwyddodd disgyblion hynnaf yr ysgol i gwlblhau tasgau ysgrifennu estynedig o safon dda am fywyd Anne Frank, Englyntyne Jebb ac am elusenau amrywiol.

Dengys adroddiadau Craffu ar lyfrau bod disgyblion yn gallu cymhwyso ei sgiliau rhifedd y llwyddiannus mewn ystod eang o sefyllfaoedd yn drawsgwricwlaidd. Gallent ymwneud a data wrth drafod y milwyr lleol a gollwyd yn ystod yr Ail Rhyfel Byd yn ogystal a delio ag arian wrth drefnu gweithgareddau codi arian tuag a elusenau.

Mae tystiolaeth gadarn mewn llyfrau ac yn ffeiliau cyfrifiadurol o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn defnyddio eu medrau TGCh yn effeithiol. Gall bron pob disgybl ar frig y Cyfnod Sylfaen fewngofnodi yn llwyddiannus i safle Purple Mash, tra fod bron pob un plentyn yng Nghyfnod Allweddol 2 yn gallu dewis meddalwedd addas ar gyfer tasgau penodol, maent yn defnyddio Hwb yn Llwyddiannus i greu cyflwyniadau, prosesu geiriau, dadansoddi data, animeiddio, modelu yn ogystal ac anfon e-byst. Gall y mwyafrif lunio cyflwyniadau creadigol a ffeithiol drwy gyfrwng appiau megis i-movie, morfo,a rhagleni animeiddio ar yr i-pads.

Materion sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf:

1. Datblygu ymhellach gallu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig mewn tasgau estynedig.
2. Parhau i addasu cynlluniau i sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau o fewn Addysg Grefyddol a bod y tasgau diddorol sy'n apelio ac yn ennyn chwilfrydedd y disgyblion.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: dda**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cygnor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

- Mewn holiaduron diweddar mynegodd bron pob plentyn eu bod yn teimlo yn ddiogel yn yr ysgol Maent yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n gwbl ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rywbeth yn eu poeni ac yn hyderus bod staff yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt. Mae bron pob un yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd a chaiff hyn ei adlewyrchu'n glir yn eu presenoldeb da a chyson.
- Wrth arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau gwelwyd bod disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb mewn Addysg Grefyddol ac yn mwynhau y testunau maent yn ei astudio. Gwelwyd bod disgyblion y Cyfnod Sylfaen wedi dysgu llawer, ac wedi cael profiadau amrywiol gwerthfawr wrth edrych ar Hawliau Plentyn a gwaith elusen Achub y Plant tra gwelwyd disgyblion ar frig yr ysgol yn mwynhau dysgu am Anne Frank ac am erledigaeth yr Iddewon yn ystod yr Ail Rhyfel Byd.
- Mae ymddygiad bron pob un disgybl mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn dda iawn. Maent yn groesawgar, yn foesgar ac yn gwrtais iawn wrth gyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhyngweithiad cadarnhaol a'r lefelau cryf o gydweithio ymhlith disgyblion o bob oedran, wrth weithio a chwarae, yn nodwedd gref yn yr ysgol. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn dangos parch tuag at eraill mewn gwersi, yn y neuadd ginio ac ar fuarth yr ysgol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn

ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig sy'n gweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ethos o ddysgu effeithiol sy'n bodoli o fewn yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles disgyblion.

- Mae llais y disgybl, trwy waith y cyngor ysgol, yn datblygu'n briodol. Mae'r aelodau yn ymwneud â'u gwaith yn frwdfrydig trwy amrywiaeth o weithgareddau. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig wrth gyfrannu at weithgareddau yn y gymuned ac mewn gwasanaethau yn yr eglwys. Maent yn cefnogi elusennau drwy godi arian ar gyfer ysgol mewn ardal dlawd yn Nepal ar ôl y ddaeargryn, er enghraifft. Maent yn ymfalchïo yn eu cyfraniad diweddar mewn dathliad canmlwyddiant Achub y Plant yn y Gadeirlan. Disgyblion wedi cael cyfle i recordio mewn stiwdio Sain a chanu cân wreiddiol gyda cantorion Opera proffesiynol. CD bellach wedi ei cyhoeddi ac yn cael eu gwerthu er budd elusen Achub y Plant. Holl ddisgyblion yr ysgol yn falch iawn o'r cyfle hwn, profiad y byddent yn ei gofio am byth! Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar eu dealltwriaeth o anghenion pobl eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.
- Disgyblion yn elwa yn fawr o gael cyfrannu yn rheolaidd i weithgareddau cymunedol yn y Pentref. Cymeryd rhan yn flynyddol mewn gwasanaeth Nadolig Traddodiadol yn y Neuadd Gymunedol yn ogystal a gwasanaeth Cymreig ar ddydd Gwyl Dewi. Yn ogystal wedi bod yn cynnal gwasanaethau yn y cartref Henoed lleol nes iddo gau yn ddiweddar. Perfformio mewn gwasanaethau Nadolig a chymanfaoedd yn yr Eglwys Leol a chefnogi'r Eisteddfod Bentref lleol.
- Cyswllt Iach a chadarn rhwng mudiadau lleol a'r ysgol e.e. Yr eglwys leol, Coleg y Bala, a cynllun EFE (Efengyl i Fro'r Eco) ble mae swyddog plant a ieuenctid yn cael ei cyflogi gan yr enwadau lleol i weithio gyda plant a ieuenctid yr ardal leol. Bydd Swyddog EFE yn ymweld a'r ysgol yn fisol i gynnal Gwasanaeth, a phob plentyn yn mwynhau'r achlysur. O bryd i'w gilydd bydd y Swyddog yn cynnal Gweithdai yn yr ysgol, ac yn aml yn cydweithio a Chriw Coleg y Bala.
- Bydd disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o amser Cylch a'r cyfle i drafod rhai o'r pethau sydd yn eu poeni. Bydd y disgbylion hynnaf yn cyfrannu i sesiynau Talkabout, bydd hyn yn datblygu hyder y disgyblion ansicr. Cynhelir sesiynau Ysgol Deina wythnosol yn y Cyfnod Sylfaen a bydd hyn yn gymorth i'r disgyblion ddysgu sut i wneud y penderfyniadau cywir.
- Yn dilyn arsylwadau gwersi a holi disgyblion gwelwyd fod mwyafrif y disgyblion yn elwa o sesiynau Go Noodle a Meddylgarwch rheolaidd yn yr ysgol.

Materion sydd angen sylw:

- Parhau i hyrwyddo Iechyd a Lles yn enwedig Meddylfryd o dwf a meddylgarwch
- Datblygu agweddau Ysgol Deina ymhellach

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: dda**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:

- Mae'r parch sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r oedolion yn nodwedd bwysig o waith yr ysgol ac yn cael effaith gadarnahol ar safonau a lles disgylion.
- Bydd Addysg Grefyddol yn cael ei ddysgu o fewn themau tymhorol yr ysgol, fel arfer cynhelir un gwers wythnosol yn ogystal a chyfnodau dyddiol o fyfyrio neu Addoli ar y cyd
- Mae ansawdd y cynllunio yn dda ar draws yr ysgol. Mae'r cynllunio yn ymateb i'r angen ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn sicrhau dilyniant o flwyddyn i flwyddyn. Mae cynlluniau Addysg Grefyddol penodol

wedi eu llunio i gydfynd a themau tymhorol yr ysgol.

- Mae  lle amlwg i lais y disgyblion yn yr ysgol ac bydd cyfle tymhorol i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn a ddysgir iddynt. Bydd cyfleoedd rheolaidd iddynt gael mewnbwn i'r cynllunio ac o ganlyniad mae'r tasgau yn gyfredol, yn ddiddorol ac yn apelio at y disgyblion e.e. yn ystod thema Ail Rhyfel Byd gofynodd y disgyblion hynnaf am gael dysgu mwy am erledigaeth yr Iddewon.
- Mae'r staff yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac yn defnyddio'r wybodaeth honno yn gelfydd wrth gynllunio profiadau dysgu diddorol i'w disgyblion sydd yn bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt yn effeithiol.  Mae'r ysgol wedi buddsoddi mewn arteffactau dros y cyfnod diwethaf er mwyn sicrhau bod yn disgylbion yn cael cyfleoedd i astudio, i gyffwrdd ac archwilio er mwyn sicrhau dealltwriaeth. Mae'r staff or farn bod yr arteffactau yn adnodd gwerthfawr i ysgogi ac ennyn diddordeb disgyblion a chredant bod arteffactau Iddewig e.e sgrol, yad, tallit, plât Seder ayyb wedi bod o gymorth mawr wrth ddysgu am arferion a defodau'r Iddew. Gall disgyblion drafod y grefydd yn hyderus o ganlyniad.
- Mae arsylwadau gwersi yn nodi bod mwyafrif y gwersi a arsylwyd o ansawdd cadarn ac yn llwyddo i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaeth ac arferion crefyddau yn ogystal a datblygu medrau pwnc a medrau Trawsgwricwlaidd y disgyblion.
- Rhoddir adborth adeiladol gan athrawon, ac fe ysgogir disgyblion i wella eu gwaith yn gyson. Defnyddir Partneriaid trafod yn y gwersi a bydd disgyblion yn hunan asesu ac asesu cyfoedion yn gyson.
- Asesir Addysg Grefyddol yn flynyddol yn ol disgrifiadau deilliannau Cyfnod Sylfaen a Lefelau Cyfnod Allweddol 2 o'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol. Adroddir ar gynnydd i Rieni mewn Adroddiadau ym Mis Mehefin yn flynyddol. Dengys asesiadau Incerts bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da a chadarn o fewn  y pwnc.
- Mae'r Uwchdim rheoli yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y profiadau dysgu ac yn darparu ystod eang o brofiadau er mwyn datblygu medrau ymholi, y syniad o berthyn a chwestiynau mawr bywyd. Mae'r cynllunio bob amser yn wahaniaethol ac yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn datblygu ar eu lefel eu hunain. Mae asesu ar Gyfer dysgu yn rhan anhebgor or cynllunio, edrychir yn benodol ar wella gallu disgyblion i fynegi ei hunan yn ysgrifenedig ac yn hyrwyddo ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol mewn cyd-destun crefyddol. E.e. Ysgrifennu ymson i archwilio'r anhegwch pan yn astudio bywyd Anne Frank
- Bydd ymweliadau addysgol yn cael eu trefnu yn rheolaidd i atgyfnerthu gwaith y dosbarth. Bydd cyfleoedd i ddisgyblion fynychu capeli ac Eglwysi lleol a bydd yr Adran Iau yn ymweld a Synagog yn ystod y flwyddyn hon er mwyn iddynt allu ymgyfarwyddo gydag addoldai a defodau'r Iddewon.
- Trefnir ymwelwyr yn rheolaid i'r ysgol er mwyn dyfnhau dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion o wahanol agweddau o Addysg Grefyddol. Cafodd y disgyblion gyfle i holi gwraig am ei phriodas Hindwaidd pan yn dysgu am grefydd yr Hindw, cafodd y disgyblion gyfle i wisgo Sari.
- Nododd disgyblion a rhieni mewn holiadur diweddar bod disgyblion wedi cael profiadau anhygoel eleni drwy gael bod yn rhan o ddathliad Canmlwyddiant Achub y Plant. Braint fawr oedd cael bod yn rhan o'r achlysur arbennig hwn, ar disgyblion wedi ymddwyn yn anhygoel ac wedi gwneud eu gwaith yn arbennig o dda.

Camau Gweithredu:

- Parhau i addasu/ diwygio cynlluniau gwaith er mwyn ymateb i ofynion Cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru
- Gwireddu gofynion y cynllun cyfredol drwy sicrhau taith i Synagog yn Lerpwl (Childwall)

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: dda**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?  Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol,

<table>
<tr><td colspan="5">cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.<br>• I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)</td></tr>
<tr><td colspan="5">Nodiadau:<br>• Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a theuluol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd cyfeillgarwch, cwrteisi a pharch yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas glos gynhaliol rhwng y disgyblion a'r staff yn nodwedd gref o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi bron pob disgybl a'u hymagwedd gadarnhaol at ddysgu ac at eu hysgol.<br>• Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli yn sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio ar anghenion eraill fel y digartref, er enghraifft. Bydd gwasanaethau ysgol gyfan yn cael eu cynnal ddwywaith yr wythnos a bydd gwasanaethau dosbarth neu cyfnodau o fyfyrio yn cael eu cynnal ar y dyddiau pan nad oes gwasanaeth ysgol gyfan.<br>• Mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddeall eu hawliau. Enghraifft dda o hyn yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am Hawliau sylfaenol plentyn y Cenhedloedd Unedig a'r gwaith sydd wedi ei gyflawni am elusen Achub y Plant. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n unigolion moesol a gwybodus.<br>• Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau yn yr ardal leol, i recordio mewn stiwdio broffesiynol ac i gynnal gwasanaethau yn y gymuned. Enghraifft dda o hyn yw sicrhau cyfle i'r holl ddisgyblion o'r Derbyn i Flwyddyn 6 i gymryd rhan mewn cyngerdd yn y Gadeirlan ym Mangor i ddathlu canmlwyddiant Achub y Plant gan gydberfformio â cherddorion proffesiynol. Mae hyn yn hyrwyddo medrau creadigol a mynegiannol disgyblion yn effeithiol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder disgyblion a'u gallu i gydweithio.<br>• Bydd y disgyblion yn trefnu gweithgareddau blynyddol er mwyn codi arian i ysgol Mambre yn Nepal a bydd cyfleoedd i ddisgyblion drafod pwysigrwydd bod yn ddinesydd da.<br>• Mewn gwersi AbaCH ac amseroedd Cylch bydd gwerthoedd megis gonestrwydd goddefgarwch ac thegwch yn cael eu hyrwyddo yn barhaus.<br>• Mae Polisi Radicaleiddio wedi ei dderbyn gan y Corff Llywodraethol ac mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ynglyn ag arwyddion a pheryglon Radicaleiddio.<br>Materion i'w datblygu<br>Parhau i sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu cyfrifoldebau fel dinasyddion byd eang.</td></tr>
<tr><td>Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?</td><td>Ydy</td><td>√</td><td>Nac ydy</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: dda</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td>Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?<br>A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?</td></tr>
<tr><td>• Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.<br>• I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG</td></tr>
<tr><td>Nodiadau:<br>• Mae gan yr Arweinydd Pwnc Addysg Grefyddol y medrau ar dealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc drwy'r ysgol. Mae cydweithio clos rhwng yr athrawon ac mae'r holl staff dysgu yn cymryd cyfrifoldeb am y gwasanaethau ar cyfnodau myfyrio.<br>• Bydd yr arweinydd Pynciol yn trefnu ymwelwyr cyson â'r ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn cael</td></tr>
</table>

| |
|---|
| profiadau amrywiol a gwerthfawr.<br>• Mae casgliad o adnoddau addas a phwrpasol i atgyfnerthu gwaith y dosbarth ar gael yn yr ysgol, e.e arteffactau Iddewig, casgliad o feiblau, casgliad o gyflwyniadau i adrodd storiau beiblaidd a storiau o grefyddau eraill ayyb. Mae'r cyfan ar gael yn gyfleus ac yn ganolog i bob dosbarth.<br>• Mae llawlyfr yr ysgol yn hysbysu rhieni am y trefniadau Addysg Grefyddol yn yr ysgol. Mae yn cyferio at camau i'w cymryd er mwyn eithrio plentyn o wersi Addysg Grefyddol. Mae un teulu yn yr ysgol wedi eu heithrio o rai gwersi Addysg Grefyddol ar hyn o bryd a hynny oherwydd eu bod yn dystion Jehofa, bydd staff yr ysgol yn sicrhau bod darpariaeth ychwanegol ar gael ar gyfer y disgyblion hyn pan na fyddent yn mynychu gwasanaethau gyda'r disgyblion eraill. Bydd oleiaf un gwasanaeth torfol wythnosol lle rhoddir sylw i wers foesol, bydd yr holl ddisgyblion yn mynchu'r gwasanaethau hyn.<br>• Bydd yr ysgol yn gweithio yn agos a Phwyllgor y Neuadd Gymuned a trefnir gweithgareddau tymhorol ar y cyd i hyrwyddo cydweithio, i gynnal arferion traddodiadol e.e. gwasanaeth Wasael (Nadoligaidd) a Gwyl Dewi ac i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion chwarae rhan flaenllaw mewn bod yn gymunedwyr yn lleol ac yn fyd eang.<br>• Bydd staff yr ysgol , Llywodraethwyr ac Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant yn Craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi yn rheolaidd. Bydd Addysg Grefyddol yn cael sylw penodol yn ystod y cyfnodau hyn. Bydd yr ysgol yn casglu esiamplau ar gyfer Portffolio o bryd i'w gilydd a bydd y maes yn cael ei arfarnu yn llawn bob tair blynedd.<br>• Mae staff o'r farn bod amryw o gryfderau ym Maes Addysg Grefyddol yn yr ysgol.<br><br>Materion sydd angen sylw:<br>• Datblygu annibynniaeth disgyblion ymhellach a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt wella eu gwaith ei hunain mewn tasgau Trawsgwricwlaidd<br>• Datblygu cysylltiadau newydd gyda ysgolion eraill a chydweithio ar agweddau penodol/ rhannu adnoddau. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: dda** |

| **Agweddau i gael sylw** | **Camau gweithredu** | **Pwy?** | **Erbyn pryd?** |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Datblygu ymhellach gallu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i fynegi eu hunain yn ysgrifenedig mewn tasgau estynedig. | Athrawes Cyfnod Sylfaen i sicrhau bod tasgau llythrennedd estynedig wedi eu cynnwys o fewn cynlluniau gwaith pob tymor | | |
| Parhau i addasu cynlluniau i sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau o fewn Addysg Grefyddol a bod y tasgau diddorol sy'n apelio ac yn ennyn chwilfrydedd y disgyblion. | Gwirio Cynlluniau Gwaith y cyfnod nesaf er mwyn sicrhau bod y medrau wedi eu hymgorffori yn llawn yn y Cynlluniau gwaith.<br><br>Sicrhau bod tasgau diddorol cyfoethog yn cael eu cynnwys | | |
| Parhau i hyrwyddo Iechyd a Lles yn enwedig Meddylfryd o dwf a meddylgarwch | Parhau i ddatblygu Meddylfryd Twf o fewn yr ysgol<br><br>Parhau i gynnal ymarferion meddylgarwch | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cyson yn yr ysgol.<br><br>Arfarnu effaith Meddylgarwch / Go Noodle | | |
| Datblygu agweddau Ysgol Deina ymhellach | Athrawes Cyfnod Sylfaen i sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu agweddau Ysgol Deina ac iw mewngorffori i'r cynlluniau gwaith<br><br>Adrodd a rhannu gyda'r athrawes ddosbarth fydd yn dychwelyd ar ol cyfnod mamaolaeth er mwyn sicrhau cysondeb, dilyniant a parhad yn yr agweddau sydd yn gweithio yn dda | | |
| Parhau i addasu/ diwygio cynlluniau gwaith er mwyn ymateb i ofynion Cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru | Edrych ar gynlluniau Addysg Grefyddol a dechrau arbrofi er mwyn ceisio mewngorffori agweddau Dyfodol Disglair. Paratoi'r ffordd ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn y dyfodol | | |
| Gwireddu gofynion y cynllun cyfredol drwy sicrhau taith i Synagog yn Lerpwl (Childwall) | Angen Cysylltu ar ganolfan Iddewig yn Lerpwl er mwyn trefnu ymweliad a'r Synagog ar ol y Pasg. | | |
| Datblygu annibynniaeth disgyblion ymhellach a rhoi mwy o gyfleoedd iddynt wella eu gwaith ei hunain mewn tasgau Trawsgwricwlaidd | Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion asesu gwaith ei gilydd mewn tasgau trawsgwricwlaidd | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

**Enw'r pennaeth Catrin Lloyd Roberts**
**Llofnod y pennaeth** Catrin Lloyd Roberts
**Dyddiad: 17/1/2020**